## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A48 (CYLCHFAN CROSS HANDS I GYLCHFAN PONT ABRAHAM, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd ac er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A48, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Cross Hands a Chylchfan Pont Abraham yn Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio cerbydau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd;

ii) gosod terfyn cyflymder 50 mya ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;

iii) gosod terfyn cyflymder 40 mya ar y darnau'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Hysbysiad hwn;

iv) gosod terfyn cyflymder 10 mya ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol yn ysbeidiol o 19:00 o'r gloch ar 10 Gorffennaf 2023 ac yn parhau hyd 06:00 o'r gloch ar 25 Gorffennaf 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd).

## THE A48 TRUNK ROAD (CROSS HANDS ROUNDABOUT TO PONT ABRAHAM ROUNDABOUT, CARMARTHENSHIRE (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to safeguard road users and to undertake works on or near the A48 trunk road from Cross Hands Roundabout to Pont Abraham Roundabout in the County of Carmarthenshire.

The effect of the Order will be to temporarily:

i) prohibit all vehicles, other than vehicles being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are also described in that Schedule;

ii) impose a 50 mph speed limit on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Notice;

iii) impose a 40 mph speed limit on the lengths of the trunk road specified in Schedules 2 and 3 to this Notice;

iv) impose a 10 mph speed limit on the lengths of the trunk road specified in Schedule 4 to this Notice. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The restriction and prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to operate intermittently from 19:00 hours on 10 July 2023 and remain until 06:00 hours on 25 July 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**

**Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill**

1. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o farciau ildio'r gylchfan i'r dwyrain o Meadows Bridge hyd at ei drwyniad ffisegol â'r gerbytffordd tua'r dwyrain.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain ac sy'n dymuno ymuno â'r A48 fydd dilyn y llwybr dargyfeirio tua'r gorllewin dros Meadows Bridge ac yna ymuno â'r A48 tua'r gorllewin i Gylchfan Cross Hands ac ailymuno â'r A48 tua'r dwyrain.

2. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o'i drwyniad ffisegol â'r gerbytffordd tua'r gorllewin hyd at farciau ildio'r gylchfan i'r gorllewin o Meadows Bridge.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin ac sy'n dymuno gadael yr A48 fydd parhau i Gylchfan Cross Hands a dychwelyd tua'r dwyrain i ymadael wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge.

3. Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Cross Hands hyd at ei chyffordd â'r prif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Pont Abraham.

4. Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Pont Abraham hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Cross Hands.

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r dwyrain sy'n dymuno ymuno â'r A48 tua'r de yw ar hyd yr A476 tua'r gogledd i Gorslas, ar hyd y B4556 tua'r dwyrain i Benygroes, ar hyd y B4297 tua'r de i Gapel Hendre, yna parhau tua'r de ar yr A483 i Gylchfan Pont Abraham. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig tua'r gorllewin.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**

**Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Routes**

1. The entire length of the eastbound entry slip road at Meadows Bridge Interchange that extends from the give way markings of the roundabout east of Meadows Bridge to its physical nosing with the eastbound carriageway.

The alternative route for eastbound traffic wishing to join the A48 will be to follow the diversion route west over Meadows Bridge then join the A48 westbound to Cross Hands Roundabout and re-join the A48 eastbound.

2. The entire length of the westbound exit slip road at Meadows Bridge Interchange that extends from its physical nosing with the westbound carriageway to the give way markings of the roundabout west of Meadows Bridge.

The alternative route for westbound traffic wishing to leave the A48 will be to continue to Cross Hands Roundabout and return eastbound to exit at Meadows Bridge Interchange.

3. The length of the eastbound carriageway that extends from its junction with the main circulatory carriageway at Cross Hands Roundabout to its junction with the main circulatory carriageway at Pont Abraham Roundabout.

4. The length of the westbound carriageway that extends from its junction with the main circulatory carriageway at Pont Abraham Roundabout to its junction with the main circulatory carriageway at Cross Hands Roundabout.

The alternative route for eastbound traffic wishing to join the A48 southbound is via the northbound A476 to Gorslas, eastbound B4556 to Penygroes, southbound B4297 to Capel Hendre, then continue southbound on the A483 to Pont Abraham Roundabout. Vice versa for westbound traffic.

## ATODLEN 2

### Terfynau Cyflymder 40 mya neu 50 mya Dros Dro

1. Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 128 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Cross Hands hyd at bwynt 600 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Pont Abraham.

2. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o bwynt 77 o fetrau i'r dwyrain o farciau ildio'r gylchfan i'r dwyrain o Meadows Bridge hyd at ei drwyniad ffisegol â'r gerbytffordd tua'r dwyrain.

3. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o'i drwyniad ffisegol â'r gerbytffordd tua'r dwyrain hyd at bwynt 83 o fetrau i'r gorllewin o farciau ildio'r gylchfan i'r dwyrain o Meadows Bridge.

4. Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Abraham hyd at bwynt 128 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Cross Hands.

5. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o bwynt 83 o fetrau i'r gorllewin o farciau ildio'r gylchfan i'r gorllewin o Meadows Bridge hyd at ei drwyniad ffisegol â'r gerbytffordd tua'r gorllewin.

6. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o'i drwyniad ffisegol â'r gerbytffordd tua'r gorllewin hyd at bwynt 78 o fetrau i'r dwyrain o farciau ildio'r gylchfan i'r gorllewin o Meadows Bridge.

## SCHEDULE 2

### Temporary 40 mph or 50 mph Speed Limit

1. The length of the eastbound carriageway that extends from a point 128 metres south east of its junction with the main circulatory carriageway at Cross Hands Roundabout to a point 600 metres north west of its junction with the main circulatory carriageway at Pont Abraham Roundabout.

2. The length of the eastbound entry slip road at Meadows Bridge Interchange that extends from a point 77 metres east of the give way markings of the roundabout east of Meadows Bridge to its physical nosing with the eastbound carriageway.

3. The length of the eastbound exit slip road at Meadows Bridge Interchange that extends from its physical nosing with the eastbound carriageway to a point 83 metres west of the give way markings of the roundabout east of Meadows Bridge.

4. The length of the westbound carriageway that extends from its junction with the main circulatory carriageway at Pont Abraham Roundabout to a point 128 metres east of its junction with the main circulatory carriageway at Cross Hands Roundabout.

5. The length of the westbound entry slip road at Meadows Bridge Interchange that extends from a point 83 metres west of the give way markings of the roundabout west of Meadows Bridge to its physical nosing with the westbound carriageway.

6. The length of the westbound exit slip road at Meadows Bridge Interchange that extends from its physical nosing with the westbound carriageway to a point 78 metres east of the give way markings of the roundabout west of Meadows Bridge.

## ATODLEN 3

### Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 600 o fetrau i'r gogledd o Gylchfan Pont Abraham hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Pont Abraham.

## SCHEDULE 3

### Temporary 40 mph Speed Limit

The length of the eastbound carriageway that extends from a point 600 metres north of Pont Abraham Roundabout to its junction with the main circulatory carriageway at Pont Abraham Roundabout.

## ATODLEN 4

### Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

1. Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth

## SCHEDULE 4

### Temporary 10 mph Speed Limit and No Overtaking

1. The length of the eastbound carriageway that extends from its junction with the main circulatory

Gylchfan Cross Hands hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Pont Abraham.

2. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o farciau ildio'r gylchfan i'r dwyrain o Meadows Bridge hyd at ei drwyniad ffisegol â'r gerbytffordd tua'r dwyrain.

3. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o'i drwyniad ffisegol â'r gerbytffordd tua'r dwyrain hyd at farciau ildio'r gylchfan i'r dwyrain o Meadows Bridge.

4. Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Pont Abraham hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Cross Hands.

5. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o'r marciau ildio i'r gorllewin o Meadows Bridge hyd at ei drwyniad ffisegol â'r gerbytffordd tua'r gorllewin.

6. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o'i drwyniad ffisegol â'r gerbytffordd tua'r gorllewin hyd at farciau ildio'r gylchfan i'r gorllewin o Meadows Bridge.

carriageway at Cross Hands Roundabout to its junction with the main circulatory carriageway at Pont Abraham Roundabout.

2. The length of the eastbound entry slip road at Meadows Bridge Interchange that extends from the give way markings of the roundabout east of Meadows Bridge to its physical nosing with the eastbound carriageway.

3. The length of the eastbound exit slip road at Meadows Bridge Interchange that extends from its physical nosing with the eastbound carriageway to the give way markings of the roundabout east of Meadows Bridge.

4. The length of the westbound carriageway that extends from its junction with the main circulatory carriageway at Pont Abraham Roundabout to its junction with the main circulatory carriageway at Cross Hands Roundabout.

5. The length of the westbound entry slip road at Meadows Bridge Interchange that extends from the give way markings west of Meadows Bridge to its physical nosing with the westbound carriageway.

6. The length of the westbound exit slip road at Meadows Bridge Interchange that extends from its physical nosing with the westbound carriageway to the give way markings of the roundabout west of Meadows Bridge.